

Coffad

Mr Idwal Lloyd Roberts

Cynhaliwyd angladd Mr Idwal Lloyd Roberts, Merddyn Coch, Llanberis, a fu farw Mawrth 31 yn 88 mlwydd oed, yn Capel Coch ar Ebrill 11 yng ngofal y Gweinidog a'r Parchgn Geraint Hughes, Richard O Jones a Dewi Morris. Roedd Idwal yn flaenor yng nghapel Gorffwysfa cyn i'r eglwys uno, a bu'n flaenor yn Capel Coch wedyn am flynyddoedd. Roedd ei gyfraniad i fywyd yr eglwys yn fawr. Cysegrodd ei ddoniau fel crefftwr i'w Arglwydd, a threuliodd oriau lawer yn cynnal a chadw adeiladau'r eglwys. Nid oedd dim yn ormod iddo ei wneud. Bu hefyd yn ffyddlon i'r Ysgol Sul am flynyddoedd yn ogystal â helpu gyda chadw cyfrif o arian yr Ysgol Sul a'r eglwys. Yr oedd yn wr hynaws, addfwyn ac annwyl dros ben; yn ddbynadwy yn y cyfan yr oedd yn ei wneud; yn barchus at bawb; ac yn boblogaidd a chymeradwy o fewn yr eglwys ac yn ei gymuned. Yr oedd wedi ymddeol o fod yn flaenor yn gymharol ddiweddar am nad oedd yn teimlo y gallai gyflawni'r gwaith yn ôl ei arfer. Wedi colli ei briod Gwyneth ym mis Tachwedd 2015, ac yntau'n mynd yn fwy llesg, yr oedd yn dibynnu fwy a mwy ar ei deulu; a thrwy eu cefnogaeth cafodd aros yn ôl ei ddymuniad yn ei gartref. Cydymdeimlwn â'i deulu yn eu hiraeth.

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 7

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 14

5.00 p.m. -

Hydref 21

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 28

5.00 p.m. -

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Hydref 7: Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fawrth, Hydref 2: Am 7.00 o'r gloch, Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch y Gymdeithas Undebol.

Dydd Sul, Hydref 7: Y Parchg Cath Williams am 10.00 o'r gloch. Yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal Parti Bytholwyrdd.

CARMEL

Dydd Llun, Hydref 1: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Hydref 5: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 7: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Hydref 4: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Sul, Hydref 7: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Y Parchg Gwenda Richards, Caernarfon am 2.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 7: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 7

10.00 a.m. - Y Parchg Cath Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd

Hydref 14

10.00 a.m. - Diolchgarwch y Plant
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 21

10.00 a.m. -
11.15 a.m. -

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 768
30 Medi, 2018
Gronyn

Daeth yr amser

Ar ddiwedd mis Medi arall mae'n adeg i edrych ymlaen. Aeth yr haf heibio, ac mae'n anochel ein bod yn paratoi at y Diolchgarwch, at droi'r clociau, at y Nadolig ac at bopeth arall sy'n rhan o'n hydrefau a'n gaeafau bob blwyddyn.

Dywed Salm 102, y dyfynnir ohoni yn *Gronyn* yr wythnos hon, ei bod yn adeg i wneud rhywbeth hefyd. Ond nid sôn am rywbeth yr ydym ni i'w wneud y mae'r Salmydd. Yn adnod 13, mae'n meiddio dweud ei bod yn adeg i Dduw wneud rhywbeth: 'Byddi'n codi ac yn trugarhau wrth Seion; y mae'n adeg i dosturio wrthi, oherwydd fe ddaeth yr amser'.

Mae ffydd y Salmydd yn Nuw mor amlwg, mewn dyddiau sy'n amlwg yn anodd iddo fo'n bersonol ac i'w bobl. Sonia am 'ddydd fy nghyfyngder' (2) a chyfeiria at erfyniad ei bobl 'orthrymedig' (17). Mae'n amlwg ei fod yn hiraethu am weld yr Arglwydd yn ei fendithio ef a'i bobl; mae'n dyheu am weld Duw yn llwyddo ei waith ei hun. Mae'n cyfaddef ei wendid. 'Yr wyf' meddai 'wedi fy nharo, ac yn gwywo fel glaswellt' (4), ac eto mae ei ffydd yn gadarn a'i hyder mor fawr. Ac yntau'n gwbl sicr y bydd Duw'n codi ac yn trugarhau wrth ei bobl gall ddweud, 'Y mae'n adeg i dosturio wrthi'. Mae'n llawn gobaith y bydd Duw'n gwneud hynny, oherwydd 'fe ddaeth yr amser'.

Rwy'n eiddigeddus o ffydd a gobaith y Salmydd. Mewn dyddiau blin o dlodi

Cynllun Efe

Cyfarfod Comisiynu

Nos Iau, Hydref 18

(manylion tu mewn)

ysbrydol gallwn ninnau alw ar Dduw i drugarhau wrth ei Eglwys. Yn ein tristwch a'n hanobaith gallwn ddyheu am weld y Brenin mawr yn codi ac yn tosturio wrthym trwy lwyddo gwaith yr Efengyl. Mewn rhwystredigaeth a gwendid gallwn deimlo ei bod yn hen bryd i bethau newid a bod gormod o amser wedi mynd heibio ers i Efengyl Iesu Grist fod mewn bri yn ein gwlad. Ond rywsut, dyhead gwag ydyw, a does fawr o ddisgwyl i ddim newid mewn gwirionedd.

Mor wahanol y Salmydd: roedd o'n gwbl sicr y byddai Duw'n tosturio wrth ei bobl. Mae'n siwr fod a wnelo'r ffaith ei fod wedi gweddio a cheisio bendith Duw â'r sicrwydd hwnnw. Mae'n disgwyl i Dduw ateb ei weddi: 'Byddi'n codi ac yn trugarhau wrth Seion'. Ac mae'n disgwyl iddo wneud hynny'n fuan: 'y mae'n adeg i dosturio wrthi, oherwydd fe ddaeth yr amser'.

Ydw, rwy'n eiddigeddus o'r hyder a welir yn y Salm hon. Mi garwn fedru dweud gyda'r Salmydd fod yr amser wedi dod i Dduw lwyddo'i waith yn ein plith. Rwy'n teimlo'i bod yn bryd iddo wneud hynny, ond ni allaf honni gwybod fod yr amser wedi dod i hynny ddigwydd. Ond yr hyn a wn yw y dylwn gymryd cam yn ôl a cheisio trugaredd Duw i'm galluogi i weddio'n fwy dyfal ac i alw arno'n fwy taer i dosturio wrth ei Eglwys. Wrth wneud hynny y dof finnau, fel y Salmydd, i fentro dweud wrth yr Hollalluog ei bod yn adeg iddo dosturio wrth ei bobl eto.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Dewi Jones, Pwllheli. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan Mr Thomas Alun Williams, Caernarfon.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg John Lewis Jones, Bae Colwyn.

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Elwyn Jones, Talwrn.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Gweddiwn dros ein gilydd eto heddiw. 'Arglwydd Dduw, diolchwn am y gymdeithas sydd gennym â'n gilydd trwy Iesu Grist. Helpa ni i werthfawrogi pob cwmniaeth yn dy waith; a chynorthwya ni i wneud popeth a allwn i'w diogelu.'

Balm o Salm



'Ond yr wyt ti, ARGLWYDD, wedi dy orseddu am byth, a phery dy enw dros y cenedlaethau. Byddi'n codi ac yn trugarhau wrth Seion; y mae'n adeg i dosturio wrthi, oherwydd fe ddaeth yr amser. Y mae dy weision yn hoffi ei meini, ac yn tosturio wrth ei llwch ... Bydded hyn yn ysgrifenedig i'r genhedlaeth i ddod, fel bod pobl sydd eto heb eu geni yn mol-i'r ARGLWYDD: ddarvoud iddo edrych i lawr o'i uchelder sanctaidd, i'r ARGLWYDD edrych o'r nefoedd ar y ddaear, i wrando ocheneidiau carchar-orion a rhyddhau'r rhai oedd i farw, fel bod cyhoeddi enw'r ARGLWYDD yn Seion, a'i foliant yn Jerwsalem, pan fo pobloedd a theyrnasoedd yn ymgynnull ynghyd i addoli'r ARGLWYDD (Salm 102:12-22).

Medal Gee

Roedd Mrs Helen Williams, Carmel, Llanllechid yn un o'r bobl a dderbyniodd Fedal Gee mewn cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghapel Seilo, Llandudno ddoe. Cyflwynir y medalau hyn bob blwyddyn i bobl sydd wedi mynychu'r Ysgol Sul ar hyd eu hoes, ac yn dal i wneud hynny. Mae aelodau Carmel, ynghyd â phawb yn Nyffryn Ogwen a llawer iawn o bobl y tu hwnt i'r fro, yn gwybod am y gwaith mawr y mae Helen wedi ei wneud dros y blynyddoedd yn yr Ysgol Sul, clwb Dwyllo Pysur a holl waith yr eglwys. Ond cyflwynwyd y Fedal iddi hi, fel i'r pymtheg arall a'i derbyniodd ddoe, yn benodol am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul.

Roedd nifer o aelodau Carmel yno gyda Helen a'i mab Dafydd i'w gweld yn cael ei anrhydeddu ddoe. Llongyfarchiadau mawr i chi, Helen; ac ar ran pawb yng Nghapel Carmel, diolch am eich holl waith.

Diolch yn fawr

Diolch yn fawr i eglwysi Cefnywaun ac Ebeneser am y rhoddion a gyflwynwyd i mi i nodi 30 mlynedd ers i mi ddod atoch yn weinidog ar Hydref 1, 1988. Yn yr oedfa bythefnos i heddiw cyflwynwyd cloc wal i mi ar ran eglwys Cefnywaun a derbyniais siec wedi'r oedfa oddi wrth eglwys Ebeneser. Mae'r blynyddoedd wedi gwibio heibio ar un ystyr, ond rwyf hefyd wrth gwrs yn sylweddoli cymaint o bethau sydd wedi digwydd a chymaint o newidiadau a welsom gyda'n gilydd yng ngwaith yr eglwysi yn Neiniolen a'r Ofalaeth. Ond wrth edrych yn ôl, rwy'n naturiol yn cofio'r bobl ardderchog y cefais y fraint fawr o'u hadnabod a chydweithio â hwy dros y blynyddoedd. Gallaf ddiolch am gynifer ohonynt a fu'n gefn ac yn gwmni i mi yng ngwaith yr eglwysi, ac mae'r hiraeth a'r ymdeimlad o golled yn aros wrth i mi feddwl amdanynt. Wrth ddiolch am eich haelioni edrychaf ymlaen at barhau i gydweithio â chi yn enw Iesu Grist; a gweddiwn am fendith Duw ar ein tystiolaeth yn yr ardal am flynyddoedd eto os Duw a'i mynn.

Bore Coffi Macmillan

Cynhaliwyd 'Bore Coffi Macmillan' i gefnogi'r elusen cancr yn Capel Coch ddydd Gwener. Cafwyd cefnogaeth ardderchog. Diolch yn fawr i bawb a ddaeth yno i gefnogi. A diolch i bawb a gyfrannodd gacennau ac a fu'n helpu i drefnu a chynnal y cyfan. Gwnaed elw o £730.40 at yr achos arbennig hwn.

Cymdeithas Undebol

Yn y Gymdeithas Undebol yn Neiniolen nos Lun ddiwethaf cafwyd sgwrs gan Glyn Gruffudd am 'Golli Tiroedd Comin Plwyf Llanddeiniolen' ac ymdrech lew'r trigolion lleol i geisio atal cyfoethogion fel teulu Staf y Faenol rhag meddiannu'r tiroedd hynny. Bydd y cyfarfod nesaf ymhen y mis.

Bore Hwyl

i blant bach dan 7 oed

yn Capel Coch

fore Sadwrn nesaf

Hydref 6

rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch.



Cymdeithas Llanberis

Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Hydref 2.

Cynllun Efe

Cynhelir Oedfa Gomisiynu ein gweithiwr newydd, Susan Williams, yng Nghanol-fan y Capel, Caethro am 7.00 o'r gloch nos lau, Hydref 18. Edrychwn ymlaen at gael croesawu Susan yn ffurfiol i'w swydd gyda Chynllun Efe, Caersalem Caernarfon a Scripture Union Cymru. Y cyfarfod hwn fydd Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe am eleni hefyd.

Agor y Llyfr

Aeth criw 'Agor y Llyfr' Deiniolen i Ysgol Gwaun Gynfi am y tro cyntaf y tymor newydd hwn ddydd Gwener.

Carol

Cynhelir Cyfarfod Trwyddedu y Parchg Carol Roberts yn Rheithor y Bala yn Eglwys Crist, Y Bala am 3.30 o'r gloch ddydd Sul, Hydref 14.